



RHAGLEN GYDWEITHREDU IWERDDON CYMRU 2014 – 2020

Cynllun Rhwydweithio Cymru Iwerddon (WIN 3)

RHEOLAU, MEINI PRAWF CYMHWYSEDD A GWEITHDREFNAU

Adran A – Rheolau Cyffredinol

1. Cyd-destun

Bwriad y cynllun WIN 3 yw annog creu partneriaethau a fydd yn arwain at gyflwyno Tabl Rhesymeg Gweithrediad i Grŵp Technegol Rhaglen Iwerddon Cymru.

Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i sefydliadau cymwys. Daw'r cymorth ar ffurf cost uned o €250.00, a delir yn adolygol yn ôl y costau teithio a chynhaliaeth a gafwyd gan y sefydliadau ymgeisiol sy'n teithio dramor i gwrdd â neu ddod o hyd i bartneriaid posibl, yn amodol ar y rheolau a'r meini prawf cymhwysedd hyn.

Mae'r cynllun WIN 3 yn gymar i Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru, ac nid ffordd arall o gael mynediad at gyllid ar gyfer y rhaglen ydyw.

2. Gweithdrefn

Bydd ceisiadau am daliadau yn unol â'r weithdrefn a osodwyd yn Adran C.

3. Ymgeiswyr

Gwneir taliadau o dan y cynllun WIN 3 i sefydliadau, nid i unigolion. Er bod y cynllun yn annog ceisiadau gan sefydliadau gwirfoddol, elusennol a chymunedol yn bennaf, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus hefyd yn gymwys i ymgeisio.

4. Cyfraddau Talu

Bydd y cynllun WIN 3 yn mabwysiadu system cost uned, a gwneir taliadau o dan y cynllun ar y gyfradd cost uned o **€250.00** y person ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth cymwys. Bydd y cynllun WIN 3 yn gweithredu gyda'r ewro (€) yn unig.

5. Cymeradwyaeth i Deithio

Rhaid cwblhau ffurflen '*Cynnig Teithio WIN*' gydag enwau pob unigolyn bydd yn teithio, ynghyd â chynllun teithio. Er mwyn hawlio o dan y cynllun, rhaid i ymgeiswyr dderbyn yn y lle cyntaf gymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer eu cais teithio gan yr Awdurdod Rheoli, cyn eu taith.

Adran B – Cymhwysedd

1. Cyffredinol

Mae cyllido o dan y cynllun WIN 3 yn ddewisol. Ceidw'r Gyd-ysgrifenyddiaeth Dechnegol yr hawl i ailgyfeirio cyllid yn ôl anghenion Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Ceidw'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yr hawl i newid y rheolau hyn trwy gyfnod y cynllun, yn ôl anghenion Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru.

2. Ymgeiswyr

Dim ond sefydliadau cymwys a ddylai ymgeisio. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau gwirfoddol, elusennol a chymunedol.

3. Ffurflen Cynnig Teithio

Rhaid i sefydliadau ymgeisiol gyflwyno Tabl Rhesymeg Gweithrediad a Chynllun Teithio fel rhan o ffurflen '*Cynnig Teithio WIN*' gyflawn. Rhoddir cefnogaeth i'r unigolion hynny sy'n ganolog i amcanion y daith yn unig, a rhaid bod gan bob taith y bwriad syml o geisio cyfleoedd i ymgeisio am gyllid Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Er enghraifft, gall sefydliad addysgol ymgeisio am gyllid WIN ond dim ond yr unigolion a ystyrir eu bod yn ymwneud â datblygiad y cais bydd yn gymwys o dan WIN. Yn yr achos hwn, byddai teithio at bwrrpas addysgol yn bennaf yn cael ei wrthod.

4. Ardal Gymwys

Bydd y cynllun WIN 3 yn ystyried ceisiadau am dreuliau a gafwyd o fewn ardal ddaearyddol gymwys Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn unig, fel y dangosir yn Adran D y rheolau, ac fel y diffiniwyd ar dudalen 3 *Crynodeb i Ddinasyddion y Rhaglen Gydweithredu*.

5. Manylion Cyswllt

Gweithredir y cynllun WIN 3 yn ganolog gan y gyd-ysgrifenyddiaeth yng Nghaerfyrddin, Cymru. Anfonwch bob ymholiad a phob cais at:

Y Gyd-ysgrifenyddiaeth
Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT

Ffôn: 01267 225484

[E-bost: IrelandWalesCrossBorderProgramme@gov.wales](mailto:IrelandWalesCrossBorderProgramme@gov.wales)

Gwefan: www.irelandwales.eu

Adran C – Gweithdrefn

1. Ymholiad gan Ymgeisydd

Anfonir ffurflen *Cynnig Teithio WIN* a chopi o'r rheolau at yr ymgeisydd.

2. Cynnig Teithio WIN

Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno ffurflen *Cynnig Teithio WIN* wedi ei chwblhau at y gyd-ysgrifenyddiaeth yng Nghaerfyrddin, Cymru.

3. Dilysu Cynnig Teithio WIN

Dilysir y ffurflen *Cynnig Teithio WIN* gan y gyd-ysgrifenyddiaeth.

4. Cais i Gymeradwyo Cynllun Teithio

Mae'r gyd-ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno cais dilys at yr Awdurdod Rheoli ar gyfer penderfyniad.

5. Penderfyniad o ran Cymeradwyo Cynllun Teithio

Mae'r Awdurdod Rheoli yn penderfynu a fydd yn cymeradwyo neu wrthod y cynnig teithio. Ar gyfer ceisiadau cymeradwy, bydd y gyd-ysgrifenyddiaeth yn anfon cymeradwyaeth ysgrifenedig i deithio yn unol â'r cynllun teithio. Hysbysir ynghylch ceisiadau gwrthodedig gan y Swyddog Gweithrediadau.

6. Teithio

Ymgeisydd yn teithio i Iwerddon/Cymru, o fewn ardal ddaearyddol gymwys Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru ac fel y cymeradwywyd yn y ffurflen *Cynnig Teithio WIN* a'r llythyr amodau.

7. Prawf o Deithio

Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno prawf o deithio, e.e. cerdyn byrddio i'w ddilysu gan y gyd-ysgrifenyddiaeth.

8. Cais am Daliad

Mae'r gyd-ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno cais dilys i'r Awdurdod Rheoli ar gyfer taliad, ac yn cyfeirio prawf o deithio annilys yn ôl at yr ymgeisydd.


9.. Penderfyniad ynghylch Talu

Mae'r Awdurdod Rheoli yn penderfynu a fydd yn cymeradwyo neu wrthod yr hawliad teithio. Mae'r Awdurdod Rheoli yn cyflwyno hawliadau cymeradwy i'r adran gyllid er mwyn effeithiol taliad. Cyfeirir hawliadau gwrthodedig yn ôl at yr ymgeisydd gan y Swyddog Datblygu.

10. Taliad

Mae'r adran gyllid yn rhyddhau taliad sengl mewn ewros i'r sefydliad ymgeisiol.

RHAGLEN DRAWSFFINIOL IWERDDON/CYMRU (2014-2020)



Yn Iwerddon, mae ardal gymwys y rhaglen yn cynnwys siroedd:

Carlow,
Corc,
Dinas Dilyn,
Dun Laoghaire/Rathdown,
Fingal,
Kerry,
Kildare,
Kilkenny,
Meath,
De Dilyn,
Tipperary,
Waterford,
Wexford,
Wicklow.

Yng Nghymru, mae ardal gymwys y rhaglen yn cynnwys:

Sir Gaerfyrddin,
Ceredigion,
Conwy,
Sir Ddinbych,
Gwynedd,
Sir y Fflint,
Ynys Môn,
Sir Benfro,
Abertawe,
Wrecsam.